

## Cydggyfarfod y Cynghorau

**Cofnodion ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.30a.m. ddydd Iau 28 Ionawr 2021 drwy Zoom

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)

Tony Ball

Pam Berry

Andrew Curl

Tania Davies

Margaret Evans

Eifion Griffiths

Yr Athro Medwin Hughes

Rowland Jones

Dr Conny Matera Rogers

Arwel Ellis Owen

Matthew Peake

Victoria Provis

Dr Stuart Robb

Geraint Roberts

Nigel Roberts

Dr Liz Siberry

Maria Stedman

Georgia Thomas

Dr Kerry Tudor

Deris Williams

Yn bresennol:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor

Tammie Bowie, Arsylwr Undeb y Myfyrwyr

Steve Baldwin Cyfarwyddwr Cynllunio Ariannol Strategol a Dadansoddi Busnes

Gavin Bessant Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol

Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr

Shône Hughes, Pennaeth Staff

Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor

Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)

Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

Catrin Beard (Cyfieithydd)  
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Eitem agenda	Prif bwyntiau trafod	Gweithredu/penderfynu
21.1 Ymddiheuriadau am absenoldeb	Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Sian Eirian.  Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau staff newydd, Dr Conny Matera Rogers, Dr Kerry Tudor a Matthew Peake, i'w cyfarfod Cyngor cyntaf.	
21.2 Cyflwyniad ar ddatblygiad y campysau	DERBYNIODD y Cynghorau gyflwyniadau ar Ddatblygiadau Campws gan yr Athro Ian Walsh, Profost Abertawe/Caerdydd a Gwilym Dyfri Jones, Profost Caerfyrddin/Llambed.  Canmolodd yr Aelodau weledigaeth y Brifysgol a nodi nodweddion gwahanol y campysau a'r cyfleoedd a'r heriau o ran marchnata.	
21.3 Datgan Buddiannau	DERBYNIODD y Cynghorau'r Datganiadau o Fuddiant fel y'u nodwyd yn adroddiad y Clerc (JCO070).	
21.4 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020	CADARNHAODD y Cynghorau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020 yn gofnod cywir (JCO071).	
21.5 Pwyntiau Gweithredu	DERBYNIODD y Cynghorau dabl diweddaraf y Pwyntiau Gweithredu (JCO072).	
21.6 Adroddiad Cadeirydd y Cyngor	DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad Cadeirydd y Cyngor (JCO073).  Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliadau diweddar yr Athro Robert Brown, DIG, a'r Athro Dafydd Johnston, Cyfarwyddwr CAWCS, gan ddiolch iddynt am eu cyfraniadau i waith Prifysgol Cymru a'r Drindod Dewi Sant.	
21.7 Adroddiad yr Is-Ganghellor	DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad yr Is-Ganghellor (JCO074).  Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y canlynol:  <u>Covid-19</u>	

Eitem agenda	Prif bwyntiau trafod	Gweithredu/penderfynu
	<p>Adroddodd yr Is-Ganghellor fod y Brifysgol yn bwriadu ymestyn dysgu ar-lein, yn ogystal â'r dull cyffredinol ar draws y sector. Byddai swyddogion yn monitro'r sefyllfa, yn enwedig o ran trefniadau ar gyfer y trydydd tymor. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cymorth gwerth £40miliwn yn ychwanegol i fyfyrwyr ar gyfer AU a fyddai'n cael ei ddsbarthu drwy law CCAUC. Nid oedd yr union feini prawf wedi'u pennu eto. Roedd hyn yn ychwanegol at gronfa HEIR a gyhoeddwyd yn flaenorol.</p> <p><u>Newidiadau Strwythurol yn y tîm Rheoli</u> Adroddodd yr Is-Ganghellor y byddai'r Cofrestrydd yn gadael y Brifysgol ym mis Mawrth 2021. Ei fwriad oedd ailstrwythuro rôl y Cofrestrydd a'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Dadansoddi Busnes er mwyn gwella integreiddio rhwng cynllunio ariannol a chynllunio adnoddau.</p> <p><u>Cynghrais Strategol PDC</u> Cyflwynodd yr Is-Ganghellor adroddiad ar drafodaethau parhaus ynghylch datblygu'r berthynas.</p> <p><u>Y Gydfenter</u> Darparodd yr Is-Ganghellor y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda phartner y Gydfenter. Câi adroddiad llawn ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.</p> <p><u>Dathliadau Deucanmlwyddiant 2022</u> Adroddodd yr Is-Ganghellor fod rhaglen ddrafft o ddigwyddiadau'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd gyda threfniadau wrth gefn pe bai'r pandemig yn parhau. Câi'r rhaglen ei chyflwyno i'w hystyried gan yr aelodau yn ystod y misoedd nesaf.</p> <p><u>Athrofa Confucius</u> Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at ohebiaeth ddiweddar a oedd yn ymwneud â dylanwad gwleidyddol posibl ar Athrofa Confucius a rhoi sicrwydd ynghylch y materion a godwyd.</p> <p>Mewn trafodaeth, cyfeiriodd aelodau at Covid-19 a'r effaith ar iechyd meddwl a holi am y cymorth a ddarperir i staff a myfyrwyr. Adroddodd yr Is-Ganghellor fod y Brifysgol wedi sefydlu seilwaith ers tro i gefnogi myfyrwyr, ei bod yn ymgysylltu'n rhagweithiol, ac y byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Brifysgol fuddsoddi ymhellach yn y maes hwn. Roedd y Brifysgol hefyd wedi bod yn effro i'w hymrwymiad i staff a rhoddodd fanylion yr ymwneud a fu ag Undebau i gefnogi'r staff. Amlinellodd CAD yr adnoddau ar-lein sydd ar gael i'r staff ac</p>	

Eitem agenda	Prif bwyntiau trafod	Gweithredu/penderfynu
	adrodd ar y gwasanaeth cymorth ar-lein 24 awr sydd ar gael ynghyd â Modylau Lles, gyda modylau a gwasanaeth ar-lein pellach yn cael eu datblygu ar y cyd ar draws prifysgolion Cymru.	
21.8 Cynllun Integreiddio Gweithredol PC a'r Drindod Dewi Sant	<p>DERBYNIODD y Cyngorau drosolwg o'r cynllunio a wnaed ar gyfer integreiddio PC a'r Drindod Dewi Sant ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith (JCO075).</p> <p>Mae'r rhestr gyfunol yn nodi'r cerrig milltir hynny a oedd wedi'u cwblhau, ac a oedd ar y gweill, neu a fyddai'n cael sylw yn nes at y pwynt integreiddio llawn. Dim ond newidiadau cyfyngedig a fu i'r rhestr gyfunol ers ei chyflwyniad diwethaf, gan adlewyrchu'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu sy'n weddill bellach yn ymwneud â chamau olaf integreiddio.</p>	
21.9 Cofrestr Risg integreiddio PC a'r Drindod Dewi Sant	<p>DERBYNIODD y Cyngorau Gofrestr Risg integreiddio PC-Y Drindod Dewi Sant (JCO076). Roedd y gofrestr risg wedi'i brawychu o'r fformat diwygiedig.</p> <p>Dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw achosion o dorri lefel risg dderbyniol nac unrhyw risgiau uchel wedi'u nodi. Roedd y risgiau uchaf eisoes wedi'u trosglwyddo i'r gofrestr risg Gorfforaethol.</p> <p>CYTUNODD yr Aelodau ei bod yn briodol archifo'r gofrestr risg integreiddio yn ddogfen ar wahân, gan nodi y byddai adroddiadau monitro risg yn parhau i gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor drwy'r gofrestr risg gorfforaethol.</p>	Y Clerc i drefnu archifo cofrestr risg yr integreiddio
21.10 Materion sy'n ymwneud â thaliadau	DERBYNIODD y Cyngorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2020 (JCO77).	
21.11 Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Taliadau i'r Cyngor	DERBYNIODD y Cyngorau Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Taliadau (JCO078)	
21.12 Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	<p>DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2021 (JCO079).</p> <p>Roedd y PELI wedi ystyried disgrifiad rôl ffurfiol arfaethedig ar gyfer aelodau annibynnol y Cyngor, i'w ddefnyddio yn ystod y broses recriwtio a dethol ac yn ddogfen annibynnol. Yn ogystal â darparu gwybodaeth i ymgeiswyr, bwriad y disgrifiad oedd rhoi eglurhad ar gyfraniad ehangach llywodraethwyr, yn ôl y gofyn yn yr Adolygiadau Effeithiolrwydd Llywodraethu. Cyflwynwyd y disgrifiad rôl i'r Cyngor i'w ystyried a'i gymeradwyo.</p>	

Eitem agenda	Prif bwyntiau trafod	Gweithredu/penderfynu
	<p>CYMERADWYODD y Cynghorau y disgrifiad rôl (JCO080) .</p> <p><u>Penodi staff-lywodraethwyr i'r Pwyllgorau sefydlog</u> Cymeradwyodd y Cynghorau argymhellion y Gynhadledd Anllywodraethol ar gyfer penodi staff-lywodraethwyr i bwyllgorau sefydlog:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwyllgor Academaidd: Dr Kerry Tudor a Matthew Peake (yn lle Dr Gareth Hughes ac Emma Hughes)</li> <li>• Y Pwyllgor Taliadau: Dr Conny Matera-Rogers (yn lle Dr Gareth Hughes)</li> <li>• Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad: Dr Conny Matera-Rogers (yn lle Andrew Gibson)</li> </ul>	
21.13 Adroddiad Iechyd a Diogelwch	DERBYNIODD y Cynghorau yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch (JCO081).	
21.14 Buddiannau sy'n Gwrthdaro	Ni nodwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant ychwanegol yn ystod y cyfarfod.	
21.14 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf	Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Mawrth 2021.	

13.30